# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Gorffennaf 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion Sunderland ynghylch diwygio'r system o ethol aelodau llywodraeth leol. (WAQ19235)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion y cynnydd yn nhreth cyngor y 22 awdurdod lleol yng Nghymru dros y 4 blynedd diwethaf, ac unrhyw ffigurau cymharol ar gyfer y 4 blynedd cynt. (WAQ19250)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynigion sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio trwy'r post yng Nghymru. (WAQ19253)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all awdurdodau lleol hysbysebu'r ffaith y gellir pleidleisio trwy'r post pan anfonir y ffurflenni cofrestru etholiadol at etholwyr. (WAQ19254)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog annog awdurdodau lleol i hysbysebu'r ffaith y gellir pleidleisio trwy'r post. (WAQ19255)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw Llywodraeth Cymru yn derbyn adroddiad y mwyafrif yn Adroddiad Sunderland ynghylch diwygio'r system o ethol aelodau llywodraeth leol, neu a yw'n derbyn adroddiad y lleiafrif. (WAQ19264)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y cynnig gan Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro i ganiatáu i bobl leol yn unig adeiladu tai yno. (WAQ19265)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch cynnig Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro i ganiatáu i bobl leol yn unig adeiladu tai yno. (WAQ19266)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gydweithredu a chydweithio a gafwyd rhwng Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r

rheini sy'n gweithio ar y fenter Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. (WAQ19267)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Gwledig

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth mae llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo marchnadoedd ffermwyr yng Nghymru. (WAQ19236)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ynghylch rheoli'r fasnach mewnforio cig yn anghyfreithlon i Brydain (gan gynnwys Cymru) o dramor. (WAQ19246)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud i'r Llywodraeth yn San Steffan ynghylch gwahardd hela â chwn. (WAQ19262)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gynlluniau cymorth busnes y mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn eu gweinyddu. (WAQ19276)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth fu'r effaith economaidd ar swyddi yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau y llynedd. (WAQ19237)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweiniog ddatganiad ar unrhyw gynnydd o ran denu swyddi newydd i ardal Doc Penfro yn Sir Benfro. (WAQ19238)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Dewhirst ynghylch cadw swyddi yn Aberteifi ac Wdig ger Abergwaun. (WAQ19239)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau sy’n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r niwed tymor hir i swyddi o ganlyniad i argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001. (WAQ19252)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru’r holl gynlluniau cymorth busnes y mae Bwrdd Croeso Cymru yn eu gweinyddu. (WAQ19272)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru’r holl gynlluniau cymorth busnes y mae Bwrdd Datblygu Cymru yn eu gweinyddu. (WAQ19273)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru’r holl gynlluniau cymorth

busnes y mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn eu gweinyddu. (WAQ19274)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru, fesul blwyddyn, faint o ddur a fewnforwyd i Gymru dros y deng mlynedd diwethaf. (WAQ19268)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru, fesul blwyddyn, faint o ddur a allforwyd o Gymru dros y deng mlynedd diwethaf. (WAQ19269)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o fentrau cymorth busnes y mae'r Cynulliad yn rhoi nawdd ariannol iddynt. (WAQ19270)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl fentrau cymorth busnes y mae'r Cynulliad yn rhoi nawdd ariannol iddynt yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol. (WAQ19271)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r effaith a gaiff mynediad am ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru ar atyniadau i ymwelwyr yn y sector preifat. (WAQ19240)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud i roi cartref i gelf o Gymru mewn Oriel Gelf bwrpasol i Gymru. (WAQ19241)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Maer Dinas a Sir Caerdydd ynghylch cais Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. (WAQ19242)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gefnogaeth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i gais Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. (WAQ19243)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo Aberystwyth fel canolfan ddiwylliant i Gymru. (WAQ19244)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff Llywodraeth Cymru roi arian i wella adeilad y senedd ym Machynlleth. (WAQ19245)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd fydd Llywodraeth Cymru'n gwneud datganiad ar Oriel Gelf Genedlaethol bwrpasol i Gymru. (WAQ19263)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Rosemary Butler (Dwyrain Casnewydd);** Pa raglen ac arian sydd ar gael i ddatblygu prosiectau 'Nurture' yng Nghymru. (WAQ19247)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gynlluniau cymorth busnes y mae ELWA yn eu gweinyddu. (WAQ19275)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa drefniadau fydd ar gael i gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl o Ebrill 2003 ymlaen. (WAQ19248)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff y Gweinidog ystyried penodi Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl i Gymru fel ffocws ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl. (WAQ19249)

**Peter S Rogers (Gogledd Cymru);** Pa gostau a ysgwyddwyd yn ystod cyfnod ymgynghori'r Adroddiad Rheoli *After Today*. (WAQ19256)

Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw geisiadau gan Severn Trent Water i ddatblygu neu ehangu cronfeydd dwr Cwm Elan, ac os felly, a all hi fanylu ar hyn. (WAQ19251)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pam fod y gwaith arfaethedig o drosglwyddo swyddogaethau mewn perthynas â ffermydd gwynt mawr wedi cymryd gymaint o amser. (WAQ19257)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran trosglwyddo'r pwer i gymryd penderfyniadau ynghylch datblygu ffermydd gwynt dros 50 cilowat. (WAQ19258)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd y penderfyniad ynghylch y fferm wynt arfaethedig yn Ystrad Fflur yn cael ei gymryd yng Nghymru neu yn San Steffan. (WAQ19259)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a Severn Trent Water ynghylch datblygu, ehangu neu gynllunio cronfeydd dwr yn Nyffryn Elan. (WAQ19260)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o felinau gwynt sydd yng Nghymru.

(WAQ19261)